<u>Cyngor Cymuned Betws-y-Coed</u>
<u>Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar y 14eg Chwefror 2022</u>

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Beth Thomas, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Mari E M Mathews.
<u>Datgan diddordeb.</u> Dim datganiad.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13eg Ragfyr 2021. **Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Ionawr oherwydd nad oedd cuorum**
Materion yn codi

(1) <u>Yr Heddlu</u>
Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol a dderbyniwyd oddiwrth yr heddwas Peter Evans
[a] Arddangosiad anweddus personol wrth Westy'r Waterloo ar y 25ain Ionawr.
[b] Cais o ladrata yng Westy'r Rhaeadr Ewynnol ar y 30ain Ionawr 2022, sydd ar hyn o bryd yn cael ei adnewyddu.
Eglurodd y Cadeirydd bod trefniadau ar gyfer SCHG a fyddai wedi ei lleoli yn pentref yn parhau ac yn dilyn cwblhad hyfforddiant y byddai'n debygol o fod yn dechrau yn y dyfodol agos.

[1.1] <u>Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair</u>
Y clerc i geisio cyngor gan CBS Conwy ynglŷn â gwneud astudiaeth dichonoldeb

[1.2] <u>Pont –y-Mwynwyr</u>
Nodwyd yr amserlen diweddara
Codi'r bont i'w lle yn dechrau Chwefror 2022
Y gwaith i gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2022

[1.3] <u>Cyngor BS Conwy/Toiledau Ffordd yr Orsaf</u>
Adroddodd y Cadeirydd ynglŷn â thrafodaeth gyda Steven Teale [CBS Conwy] ar trafferthion a oedd yn bodoli ynglŷn â chael rhywun yn gyflogedig i weithio ar fin nos. Mae Steven Teale yn cysylltu'n bellach ynglyn ar mater

[1.4] <u>Atgyweirio'r Neuadd Goffa</u>
Eglurodd y Cadeirydd, fod y Cyngor Cymuned yn parhau i aros am ateb gan Bethan Wyn Jones o'r Cyngor Sir

[1.5] <u>Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy</u>
Dywedodd y Cyng E Roberts ei bod yn trefnu sgwrs ar y we. Y trefniadau i ddilyn.

[1.6] <u>Caffi 'r Rheilffordd Fach</u>
Cyfeiriodd y clerc at sylwadau oddiwrth y tenant nad oedd unrhyw fath o dyfiant gwyrdd yn amlwg ,fel yr oedd wedi ei dynnu i sylw'r Cyngor a bod Mr Cartwright y perchennog yn cynghori i beidio mynd i gostau
Y clerc i gysylltu gyda Peter Wood Swyddog Gorfodaeth y Cyngor Sir ynglyn a'r mater.

[1.7] Materion Parcio Bro Gethin
Y clerc i gysylltu gyda Ms Katie Clubb [Cartrefi Conwy] bod y Cyngor yn awyddus i geisio adroddiad ar gyfer creu maes parcio, yn arbennig faint o foduron a fyddain'n bosib gwneud defnydd ohono.

[1.8]Llystyfiant Pont-y-Pair
Cytunodd y Cyng E Roberts i gysylltu gyda Bryn Shiland [Cyngor BS Conwy] I'w gynghori bod y Cyngor Cymuned o'r farn mae cau'r ffordd dros nos fyddai orau ac iddo gysylltu gyda thenantiaid a busnesau agos ynlgun ac anghyfleustra goleuadau a sŵn yn gysylltiedig â'r gwaith.

[1.9] Dyn mewn Fan
Y clerc i anfon adroddiadau a baratowyd gan y Cyng Neil Pringle i'r aelodau

[2]Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy
Y clerc i anfon at Gyfarwyddwr y Gyfraith a Democrataidd Cyngor BS Conwy i geisio gwybodaeth ynlgun a pherchnogaeth yr ynys.

[2.1] Baw Cwn/ Pentre' Du
Nodwyd ateb gan y Cyngor Sir nad oeddent yn medru darparu bin ym Mhentre' Du. Penderfynwyd prynu bin a'i osod wrth yr ysgol. Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai'n trafod posibilrwydd o gamerâu cylch agos dros dro yn y lleoliad.

Y Brif Agenda
[2.2] Materion Cynllunio
[a] Dymchwel garej ayb, 8 Gethin Terrace Pentre Du
[b] Adeiladu tŷ menter wledig Fferm yr Hendre, Pentre Du
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.3] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1/12/21 -28/2/22
[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn gwella yn dilyn y cyfnod y bu ar gau yn o ganlyniad cofid.

[2.4] Holiadur Cymuned
Gan nodi'r amgylchiadau presennol ynglyn a'r neuadd, penderfynwyd gadael y cwestiwn ynlgun a'r neuadd allan o'r holiadur. Cytunodd y Cyng E Roberts I gysylltu gyda'r Cyng Mari E Mathews ynlgun a'r mater, a hefyd i'w hatgoffa bod angen logo ar gyfer llythyrau'r Cyngor.

[2.5] Sedd Wag y Cyngor
Cyfeiriodd y clerc at gais gan Ms Anna Brown, Llwyn-y-Gog, Betws-y-Coed I'r sedd wag.Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd Ms Brown yn aelod cyfethol o'r Cyngor.

[2.6] Sbwriel/ Maes Parcio Ffordd yr Orsaf
Nodwyd y pryderon ynglŷn â glendid y maes parcio. Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â chostau ayb gyda chwmni yn arbenigo mewn gwaith glanhau.

[2.7] Ardal Cadwraeth Betws-y-Coed
Sylwadau i'w hanfon i'r clerc.

[2.8] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr
Nodwyd yr amserlen ganlynol
[a] Chwefror –Arolwg I'r safle profion defnyddion ayb.
[b] Chwefror –Dylunio a datblygu dogfennau tender
[c] Chwefror - Cysylltu gyda CNC ynglŷn â gweithio dros yr afon
[d] Ebrill- Cychwyn y gwaith

[2.9] Asesiad Risg
Cymeradawyd yr asesiad risg ar gyfer y Neuadd Goffa a'r Rhaeadr Ewynnol.

Gareth Wynne, Cadeirydd